**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020**

Pwynt Craffu ar Rinweddau: *Ymateb*

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y Memoranda Esboniadol a'r Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Offerynnau Statudol a osodir yn ddwyieithog yn y Senedd. Fodd bynnag, ni osodir y dogfennau hyn yn ddwyieithog yn awtomatig ar hyn o bryd. Er ein bod yn gosod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn ddwyieithog, rydym hefyd yn gorfod blaenoriaethu ein hadnodd cyfieithu cyfyngedig mewn modd llym iawn ar hyn o bryd, gan roi'r flaenoriaeth uchaf i ddeddfwriaeth a chanllawiau i'r cyhoedd sy'n ymwneud â Covid a Brexit. Mae'r pandemig a Brexit wedi cyfrannu'n sylweddol at y pwysau digyffelyb ar ein hadnoddau cyfieithu.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen gael ei gosod yn ddwyieithog pan fo hynny'n rhesymol ymarferol, ac mae Safon 47 o Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried y pwnc penodol a'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer dogfennau penodol wrth flaenoriaethu eu cyfieithu. Gan ddilyn canllawiau a ddarparwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, fe wnaethom ystyried materion megis a oedd y Gorchymyn yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg yn uniongyrchol, a oedd y Gorchymyn o ddiddordeb mawr i grwpiau o siaradwyr Cymraeg yn benodol, ac a fyddai cyfran uchel o'r gynulleidfa ar gyfer y dogfennau yn siarad Cymraeg. Am fod y Gorchymyn hwn yn weithdrefnol ei natur, gan sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chan wneud darpariaethau ynghylch ei aelodaeth a'i swyddogaethau, ac nad oes iddo effaith uniongyrchol ar y cyhoedd, nid ystyriwyd ei fod yn flaenoriaeth i'n Gwasanaeth Cyfieithu sydd o dan bwysau ar yr adeg hon.